NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Cabozantinibar gyfer carsinoma celloedd arennol datblygedig a gafodd ei drin yn flaenorol

9 Awst 2017

Mae Cabozantinib (Cabometyx) ar gael ar y GIG fel triniaeth ar gyfer carsinoma celloedd arennol datblygedig (canser yr aren) mewn oedolion.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Ymchwil Arennau y DU, 0300 303 1100

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Cymdeithas Cleifion Arennau Prydain, 01420 541 424
- Canser yr Aren y DU, 0800 002 9002
- Ffederasiwn Arennau Cenedlaethol, 0845 601 0209
- Rhwydwaith Cymorth Canser yr Aren, 01209 890326 0000

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-2623-7

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights